

# Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

[clerc@cyngor-llangelynnin-council.org.uk](mailto:clerc@cyngor-llangelynnin-council.org.uk)

Clerc: Jane Jenkins, 2 Talybont, Dolgellau, Gwynedd, LL40 1UA

## Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher – 13.11.24 - am 7yh yn Y Ganolfan, Llwyngwril

**Presennol:** David Griffiths - Cadeirydd (DG), Geraint Edwards – Is Gadeirydd (GE), Huw Davies (HD), Ian Williams (IW), Jenny Warne (JW), Keith Carroll (KC), Louise Hughes - Cynghorydd Sirol (LH), Jane Jenkins (JJ) – Clerc.

1. **Ymddiheuriadau:** Geraint Micah, Jane Lawrence, Nicola Roberts, Megan Griffiths.

2. **Croeso'r Cadeirydd:** Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2.1 **Datgan Diddordeb:** Dim.

3. **Cymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf:** cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 09.10.24 yn gywir.

**Cynnig:** JW **Eiliwyd:** KC **Arwyddwyd:** DG

4. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol (09.10.24):**

a) **Coeden Onnen yn y Cae Chwarae** – nodwyd y byddai'r contractwr yn mynychu'r cae chwarae ar 25/11/24. Caniatâd wedi ei dderbyn gan perchenog yr eiddo cyfagos, ar gyfer mynediad, fel y gallai'r contractwr clirio ar ei ôl, ac wedi gynnig lle parcio i'r contractwr. Byddai GE yn mynychu'r safle y diwrnod cynt i ddatgloi gatiâu'r cae chwarae ond y contractwr i sicrhau bod dim mynediad i'r cae chwarae ar y diwrnod. Hysbysebion i gael eu harddangos wrth giât y cae chwarae yn hysbysu'r cyhoedd o'r gwaith yn cael ei wneud, a bod dim mynediad tra fod y gweithwyr yna.

**Penderfyniad** - Clerc i anfon e-bost at y contractwr a rhoi gwybod y bydd y gatiâu'n cael eu datgloi ar eu cyfer ag eu hatgoffa y byddai angen iddynt sicrhau bod y fynedfa ar gau i'r cyhoedd tra'r gwaith yn cael ei gyflawni.

b) **Gwefan y Cyngor Cymuned** – Holwyd a fyddai'r wefan bresennol yn cael ei dileu unwaith y wefan newydd yn mynd yn fyw. Gofynnodd JJ i wneud ymholiadau i'r dylunydd gwe. Amryw addasiadau i'w gwneud i'r tudalennau.

**Penderfyniad:** Cytuno'n unfrydol i fynd ymlaen â'r wefan newydd.

**GWEITHREDU:** JJ i wneud ymholiadau ynglŷn â'r wefan bresennol a sicrhau fod newidiadau yn cael eu gwneud.

5. **Gohebiaeth wedi eu derbyn:**

a) **Llwybyr Cyhoeddus ger Sunbeach** – darparwyd copiâu o'r ohebiaeth a dderbyniwyd gan Gyngor Gwynedd a gan Y Parc Cenedlaethol Eryri.

**GWEITHREDU:** JJ i anfon copiâu o'r ddau lythyr yma at "Green Lanes Association" i'w sylw pellach.

b) **Wal Derfyn – Llwyngwril i Friog** – dywedodd LH y byddai yn trafod y mater yma yn ei hadroddiad.

c) **Cyffordd Gwastadgoed** – cadarnhaodd JJ fod Heddlu Gogledd Cymru wedi rhoi "rhif digwyddiad" iddi ond doedd dim byd pellach i'w adrodd fel diweddariad ar y mater.

6. **Materion Cynllunio:** Dim

## 7. Materion Ariannol:

- a) **Adroddiad Ariannol Mis Hydref 2024** - wedi ei gymeradwyo yn gywir.  
Cynnig: HD Eiliwyd: IW Arwyddwyd: DG
- b) **Taliadau** – Cyflog y cleric. Anfonebau wedi eu derbyn gan A&M Lloyd, C Lawrence, D Griffiths ag Y Llog Brydeinig Frenhinol.  
**Penderfyniad:** Cymeradwyo pob taliad, a sieciau wedi'u paratoi.
- c) **Graddfeydd Cyflog - LGA – Un Llais Cymru - 2024-25**

Cafwyd drafodaeth ar Gytundeb Tâl Gwasanaethau Llywodraeth Leol 2024/25 – (LGA). JJ (Clerc) yn tynnu sylw fod cynyddu graddfeydd cyflog yn cael eu dyfarnu gyda phrofiad, cymwysterau, boed yn swyddog ariannol ai peidio, a dylid eu haddasu yn unol â hynny. Nid oedd JJ yn credu bod ei Graddfa Gyflog bresennol yn gywir. HD yn anghytuno â'r ffaith hon a dywedodd nad oedd unrhyw rwymedigaeth i ddilyn y Raddfa Gyflog berthnasol na'i chynyddu oherwydd profiad a chymwysterau. Gofynnodd JJ i ymchwilio ymhellach i Gyflogau Clercod ac ar ba sail maent yn benderfynol; gwirio ei contract cyflogaeth a darparu unrhyw wybodaeth berthnasol arall. Yn y cyfamser, yn seiliedig ar y cynnydd graddedig fesul awr presennol i ddod i rym gydag ôl-daliad hyd at 01.04.24 yn daladwy yn y gyflog nesaf.

**GWEITHREDU:** JJ i gysylltu ag Un Llais Cymru a chael gwybodaeth am Raddfeydd Cyflog perthnasol ar gyfer Clerc, a pha ffactorau sy'n cael eu hystyried; gwirio manylion cyflogaeth contract ar gyfer telerau adolygiad blynyddol, a darparu unrhyw ddogfennaeth arall yn ymwneud â Chyflogau Clercod.

- d) **Adolygu'r Rheolau Sefydlog a'r Rheoliadau Ariannol newydd**  
Trafodwyd y ddau bolisi – roedd y'r aelodau wedi cael copi i'w hadolygu cyn y cyfarfod.

**PENDERFYNIAD:** Cytuno'n unfrydol i'r adolygiad o'r Rheolau Sefydlog a'r Rheoliadau Ariannol.  
Mabwysiadwyd y ddau bolisi ar 13.11.24.

## 8. Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr:

DG wedi mynychu cyfarfod "Y Ganolfan" ac adroddodd y canlynol:

- a. Roedd cais wedi'i wneud i beidio â derbyn mwy o lyfrau ar hyn o bryd oherwydd diffyg lle.
- b. Cynhyrchion glanhau/cemegau i'w storio mewn cypyddau uchel at ddibenion iechyd a diogelwch.
- c. Hysbyseb wedi ei rhoi ar dudalen facebook, i geisio cael rhywun i lanhau Y Ganolfan.
- d. Roedd problemau wedi datblygu gyda'r yrnau, felly mae'r rhain wedi'u tynnu a rhoi tegelli yn eu lle.
- e. Mae'r "Yarn Bombers" wedi codi'r swm o £404.40 tuag at gronfa'r Ganolfan eleni.
- f. Mae lansiad llyfr "Cofio Llwyngwriil" wedi ei drefnu - dydd Gwener 29/11/24 – mynediad gyda tocyn yn unig. Y llyfr yn 100 tudalen A4, a bydd yn cael ei werthu am £10.00 y copi. Yr elw i gyd at Y Ganolfan.
- g. Bydd Janet Jones yn ymddiswyddo fel Trysorydd, ar 31/03/25. Trysorydd newydd angen ei penodi.
- h. Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Y Ganolfan eleni - ar y 20/11/24.

## 9. Adroddiad y Cynghorydd Sirol:

- a. Roedd LH wedi mynychu cyfarfod arbennig o'r Cyngor llawn i drafod pleidlais sengl drosglwyddadwy. Methu â chael cytundeb dwy ran o dair o'r Cyngor, pleidleisiwyd yn erbyn hyn.
- b. Roedd LH wedi mynychu cyfarfod PCE i drafod Plas Tan-y-Bwlch. Bu protestio cyhoeddus fel cyfnod ymgynghori annigonol, ac ar hyn o bryd mae wedi'i dynnu oddi ar y farchnad. Unrhyw un sy'n dymuno i wneud sylwadau gall naill ai wneud hynny trwy LH neu'n uniongyrchol i'r Parc Cenedlaethol Eryri.
- c. Roedd LH wedi derbyn e-bost gan Adrian Wyn Williams ynglŷn â'r Wal Derfyn rhwng Llwyngwriil a Friog, gyda diweddariad.  
Darllenwyd yr e-bost allan, ac o ganlyniad roedd ychydig o gwestiynau. Cynigiodd LH ymdrin yn uniongyrchol â nhw.

**10. Unrhyw Fater Arall:**

- a. Dywedodd KC fod ganddo'r pren bellach i atgyweirio'r fainc yn Rhoslefain ac y bydd yn anfon yr anfoneb i JJ. Mae'n gobeithio gwneud y gwaith atgyweirio yn ystod yr wythnos nesaf.
- b. Trafododd GE ddyddiadau ar gyfer cael y Coed Nadolig a'u gosod. Penderfynwyd fod y penwythnos 7/8 Rhagfyr oedd fwyaf tebygol, ac roedd angen cymorth. Cadarnhaodd y rhai oedd yn bresennol eu bod ar gael i helpu.
- c. Cyllideb y flwyddyn nesaf i'w rhoi ar agenda cyfarfod Mis Rhagfyr a chopïau o'r gyllideb presennol i'w e-bostio at yr holl Gynghorwyr. Gwariant ar gyfer y flwyddyn gyfredol i fod ar gael yn y cyfarfod nesaf.

Cyfarfod wedi dod i ben am 8.55 yh.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:- Nos Fercher – 11.12.24 - am 7 o'r gloch yn y Ganolfan, Llwyngwril**

Arwyddwyd

Cadeirydd .....



Dyddiad .....

12/02/25